# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Mawrth 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **34668** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Rhyddhad Dewisol Rhag Trethi Annomestig** |

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

**Mabwysiadu'r Fframwaith ar gyfer Caniatáu Rhyddhad Dewisol rhag Trethi Annomestig sy'n ymddangos yn Atodiad 1.**

### Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

1. Mae Fframwaith bresennol y Cyngor ar gyfer caniatáu Rhyddhad Dewisol i Dalwyr Trethi Annomestig wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn. Mae felly'n amserol i'r Cyngor gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i Bolisi Rhyddhad Dewisol nid yn unig er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas yn sgil newidiadau deddfwriaethol, ond hefyd i ystyried os yw'r rhyddhad y mae'r Cyngor yn ei ganiatáu wedi ei anelu i'r mannau cywir ac yn fforddiadwy.

### CYFLWYNIAD

2. Rôl casglwr trethi sydd gan y Cyngor mewn perthynas â Trethi Annomestig. Mae'r Cyngor, yn ei rôl fel "awdurdod bilio", yn caglu'r trethi ac yn talu'r swm drosodd i Pŵl Ardrethi Annomestig Cenedlaethol Cymru, gyda'r Cyngor wedyn yn derbyn cyfran o gyfanswm y pŵl yn ôl gan Lywodraeth Cymru.

<u>Rhyddhad Elusennol Mandadol</u>

3. Mae **Adran 43** o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn amlinellu sut y dylid cyfrifo bil ardrethi eiddo nad yw'n eiddo domestig ac sydd wedi ei feddiannu, sef:

**Bil Treth Annomestig = Gwerth ardrethol yr Eiddo x Y Lluosydd Cenedlaethol**

4. Gwelir mai dau ffactor a ddefnyddir i gyfrifo bil treth busnes unrhyw eiddo:
   - Gwerth trethiannol yr eiddo fel a bennwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA). Asesiad proffesiynol o'r rhent blynyddol y byddai eiddo yn ei gael ar ddyddiad penodol ydi'r gwerth trethiannol.
   - Lluosydd a osodir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r lluosydd yn gyson ar gyfer pob busnes ac ar gyfer pob awdurdod lleol. Ar gyfer 2017/18, y lluosydd yw 0.499, a bydd yn cynyddu gyda graddfa chwyddiant CPI yn 2018/19 i 0.514.

5. Fodd bynnag, mae Adran 43(5) a 43(6) o’r Ddeddf yn datgan mai **20%** o’r uchod yw’r Dreth Annomestig sy’n daladwy ar eiddo a ddefnyddir gan:

   - Elusen at bwrpasau elusennol
   - Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC) (fel a ddiffinnir gan Bennod 9 Deddf Treth Gorfforaeth 2010).

6. Cyfeirir yn aml at y gostyngiad yma o 80% i elusennau a CASCau fel “rhyddhad elusennol mandadol”.

<u>Rhyddhad Dewisol</u>

7. Yn ychwanegol i’r uchod, mae **Adran 47** o Ddeddf 1988 yn cynnwys darpariaeth ddewisol sy’n rhoi’r grym i awdurdodau bilio addasu’r Dreth Annomestig taladwy (heblaw am mewn achosion penodol megis eiddo awdurdod lleol), yn ychwanegol i’r rhyddhad mandadol a ganiateir trwy Adran 43.

8. Mae hawl gan y Cyngor i sefydlu rheolau ar gyfer dyfarnu rhyddhad dewisol, ond ni ellir gwrthod unrhyw gais am ryddhad heb ei ystyried ar ei gryfderau ei hun.

9. Mae Adran 47 yn benodol yn caniatáu i’r Cyngor:

   - Ddyfarnu rhyddhad ychwanegol (ar ben y 80% mandadol) i elusennau a CASCau.
   - Ddyfarnu rhyddhad i gorff sydd ddim wedi cael ei sefydlu na’i redeg am elw, ac sydd ag amcanion elusennol neu sy’n ddyngarol neu grefyddol neu'n ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain.
   - Ddyfarnu rhyddhad i eiddo sy’n cael ei ddefnyddio at bwrpasau hamdden gan glwb, cymdeithas neu gorff arall sydd ddim wedi cael ei sefydlu na’i redeg am elw.

10. Yn ychwanegol i hynny – yn sgil addasiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011 – gall yr awdurdod wneud penderfyniad i roi rhyddhad dewisol i unrhyw eiddo annomestig arall, ond dim ond os yw’n rhesymol iddo wneud hynny ar ôl ystyried buddiannau pawb sy’n talu Treth Cyngor yn yr ardal, a byddai’n rhaid i’r awdurdod lleol ariannu’n llawn gost unrhyw ryddhad a ddyfernir yn yr achosion hyn.

11. Dylid nodi fod cynlluniau eraill hefyd sydd yn cynnig rhyddhad rhag trethi annomestig. Mae’r rhain yn cynnwys y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bychain, sydd yn gynllun cenedlaethol a reolir trwy reoliadau.

Baich ariannol

12. Y Pŵl Cenedlaethol sydd yn ysgwyddo baich ariannol pob ryddhad mandadol (elusennau a CASCau) a ganiateir, ond mae cost ariannol i'r awdurdod lleol pan mae'n defnyddio'i disgresiwn lleol i ganiatáu rhyddhad dewisol o dan Adran 47. Yn unol â Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethi Annomestig (Cymru) 1992, mae cyfran y gost sy'n daladwy gan y trethdalwyr lleol fel a ganlyn:

| **Math** | **Uchafswm y Rhyddhad** | **Cyfran o'r gost sy'n dod o'r Pŵl Cenedlaethol** | **Cyfraniad o'r Gost sy'n dod gan y Cyngor** |
|---|---|---|---|
| Rhyddhad dewisol ychwanegol i elusen (uwchlaw'r 80% mandadol) | 20% Ychwanegol | 25% | 75% |
| Rhyddhad dewisol pellach i CASC (uwchlaw'r 80% mandadol) | 20% Ychwanegol | 90% | 10% |
| Rhyddhad dewisol i gorff sydd ddim am elw, gydag amcanion elusennol neu sy'n ddyngarol neu grefyddol neu'n ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain | 100% | 90% | 10% |
| Rhyddhad dewisol i gorff sydd ddim am elw, ac yn ymwneud â hamdden | 100% | 90% | 10% |
| Rhyddhad i unrhyw eiddo annomestig arall | 100% | Dim | 100% |

13. Yn 2017/18:

- Mae **66** Eiddo mewn defnydd elusennol ac yn cael rhyddhad mandadol yn unig
- Mae **417** Eiddo mewn defnydd elusennol ac yn cael ychwanegiad o ryddhad dewisol o 20% (heblaw am un sy'n cael 10%) ar ben y rhyddhad mandadol, ar gost i'r Cyngor o oddeutu **£280,000**
- Mae **64** Eiddo yn cael rhyddhad dewisol yn unig, ar gost i'r Cyngor o oddeutu **£27,000**

14. Mae hyn yn erbyn cyllideb o **£295,000,** sy'n golygu fod o 4% yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd £80,000 ychwanegol yn y setliad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gyllideb yma yn 2018/19, a bydd cynnydd gyda chwyddiant ar ben hynny.

**RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

15. Mae Fframwaith gyfredol y Cyngor yn ei le ers sawl blwyddyn bellach, a dylid ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau yn addas. Mae adolygiad o'r fath yn cynnwys ystyried os yw'r trethdalwyr lleol erbyn hyn yn cyfrannu i gynorthwyo rhai cyrff i dalu eu biliau Trethi Annomestig er nad oes budd amlwg yn deillio i bobl Gwynedd o hynny.

16. Ar 28 Medi 2017, cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – yn ei rôl craffu corfforaethol – i sefydlu Grŵp Ymchwil i adolygu'r Fframwaith bresennol. Cyfarfu'r Gweithgor ddwywaith – ar 12 Hydref ac 14 Tachwedd – er mwyn adolygu'r Fframwaith bresennol; roeddwn yn bresennol yn y ddau gyfarfod. Adroddwyd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2017.

17. Canlyniad y gwaith craffu oedd fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ar y cyfan, yn fodlon â'r fframwaith oedd yn ei le, ond mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 28 Tachwedd yn amlygu rhai addasiadau a argymhellwyd gan y Grŵp Ymchwil:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s15204/Ardrethi%20Annomestig%20Rhyddhad%20Dewisol.pdf?LLL=1

18. Mae argymhellion y Grŵp Ymchwil, a gymeradwywyd yn llawn gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w cael ar hyd y ddolen isod:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s15205/Atodiad%20-%20Sylwadau%20ar%20y%20Polisi%20Cyfredol.pdf?LLL=1

19. Rwyf yn ddiolchgar i aelodau'r Grŵp Ymchwil ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu gwaith yn edrych yn fanwl ar y mater yma. Mae'r Fframwaith a gyflwynir yn Atodiad 1 yn adlewyrchu canlyniad eu gwaith.

20. Cyfeiriaf yn benodol at yr argymhelliad y dylai'r rhyddhad ychwanegol dewisol a roddir yn ddiofyn i Eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr RSPCA a'r RSPB ddod i ben. Nid oes rheswm sy'n cyfiawnhau fod yr elusennau cenedlaethol hyn yn haeddu ymdriniaeth wahanol i elusennau eraill, a derbyn rhyddhad dewisol ychwanegol o 20% ar unrhyw eiddo yn eu meddiant yn ddiofyn. Argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu oedd y dylid trin yr elusennau hyn fel pawb arall, gan ystyried rhyddhad dewisol ar eiddo unigol yn unol â'i haeddiant (e.e. gellid caniatáu rhyddhad i eiddo addysgiadol, ond ddim i swyddfeydd neu gynlluniau “hydro”).

21. Ymhellach, roedd y Grŵp Ymchwil yn awyddus i'r fframwaith newydd roi ystyriaeth mewn rhai amgylchiadau, nid yn ogystal i natur defnydd yr eiddo, ond hefyd i sefyllfa ariannol rhai o'r elusennau sydd yn gwneud cais am ryddhad dewisol, ac roeddynt yn awyddus i'r Adran Gyllid ystyried ymarferoldeb gosod prawf modd ar y cymorth a roddir trwy'r drefn rhyddhad dewisol.

22. Ar ôl ystyried ymarferoldeb cyflwyno trefn o'r fath ac asesu'r risgiau, mae'r Adran Cyllid wedi fy nghynghori y dylid pwyllo a gweld effaith gweithdrefn o'r fath yn ardaloedd awdurdodau bilio eraill cyn cymryd y camau hyn yma. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn wedi ei ddiystyru yn llwyr, a byddwn yn ail-ymweld â'r mater yma dros y flwyddyn neu ddwy nesaf pan fydd canlyniadau'r gwaith ymchwil pellach wedi dod yn amlwg.

## CAMAU NESAF AC AMSERLEN

23. Bydd y Fframwaith yn weithredol i geisiadau newydd am ryddhad o 1 Ebrill 2018.
24. Oherwydd gofynion Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Rhyddhad Dewisol) 1989 (1989/1059), rhaid rhoi o leiaf blwyddyn o rybudd pan mae rhyddhad dewisol yn cael ei diddymu neu ei leihau, a gall y diddymiad neu addasiad ond digwydd ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Felly, bydd unrhyw gorff sydd yn gweld gostyngiad yn y rhyddhad a ganiateir iddynt yn gweld effaith hynny o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Trefniadau Craffu

25. Nodir uchod fod y mater yma wedi cael ei graffu gan aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod Hydref a Tachwedd 2017.

### Asesiad Effaith Cydraddoldeb

26. Fel gyda phob penderfyniad pellgyrhaeddol, rhaid i'r Cyngor roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.
27. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn unol â'r gofynion statudol sydd ar y Cyngor. Mae'r Asesiad llawn wedi ei gynnwys yn Atodiad 2. Nid ydym yn credu fod materion cydraddoldeb penodol sydd angen tynnu sylw'r Cabinet atynt wrth ystyried y mater yma.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

28. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu'r cynnig gerbron.
29. Wrth ystyried newid y Fframwaith ar gyfer caniatáu Rhyddhad Dewisol, rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith arwyddocaol mae elusennau a chyrff di-elw eraill yn eu cyflawni yng nghymunedau Gwynedd. Fodd bynnag, dangosodd y gwaith craffu fod peth pryder am gynaliadwyedd trefn lle mae trethdalwyr Gwynedd yn talu am Ryddhad Trethi i gyrff nad ydynt yn gweithredu yn benodol er budd trigolion Gwynedd. Mae'r Fframwaith a gynigir yn mynd i'r afael â hyn.

### Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

### Barn y swyddogion statudol

<u>Swyddog Monitro:</u>

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

<u>Pennaeth Cyllid:</u>

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.